# Uwch Arholwr,
# TAG (CBAC) Lefel 3 Chwaraeon Astudiaeth Achos Seicoleg Uned 11
## Proffil y Rôl a Ffurflen Gais

**Diben:**

Mae CBAC yn recriwtio Uwch Arholwr ar gyfer TAG Lefel 3 Chwaraeon Astudiaeth Achos Seicoleg. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am asesu un o unedau'r cymhwyster TAG yng Nghymru.

Yr Uwch Arholwr sy'n gyfrifol am osod y tasgau, senarios a'r cynlluniau marcio yn ogystal â sicrhau bod y marcio'n cael ei safoni.

**Cyfrifoldebau:**

- gosod y tasgau, senarios a'r cynlluniau marcio ar gyfer y papur cwestiynau neu gymeradwyo rhai gan arholwyr eraill
- monitro safonau marcio holl arholwyr y papur, gan gynnwys, lle bo angen, unrhyw arholwyr cynorthwyol ac arweinwyr tîm, a gweithredu'n briodol i sicrhau cywirdeb a chysondeb
- cynghori ar benodi, hyfforddi ac ailbenodi arweinwyr tîm ac arholwyr ar gyfer yr uned, lle bo angen gwneud hynny
- mynd i'r cyfarfod dyfarnu, rhoi cyngor i aelodau ar sut gweithiodd y papur cwestiynau ac argymell ystodau marciau rhagarweiniol ar gyfer y ffiniau gradd yn ôl barn ar gyfer y papur cwestiynau
- cyflwyno adroddiad gwerthuso ar berfformiad y papur cwestiynau/tasgau

Mae angen i'r Uwch Arholwr fod ar gael am gyfnod o bum diwrnod y flwyddyn o leiaf. Gall y cyfnod hwn gynnwys dyddiau yn ystod y tymor, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Mae tâl rhyddhau ar gael i ganolfannau. Bydd hyn yn galluogi i ddeiliad y swydd fynychu PGPC (deuddydd), safoni arweinwyr tîm ar gyfer y papur arholiad ym mis Mehefin (un diwrnod), a mynychu'r gynhadledd arholwyr (un diwrnod) a'r gynhadledd ddyfarnu ym mis Gorffennaf (un diwrnod).

**Profiad/cymwysterau angenrheidiol**

- gradd yn y pwnc sy'n benodol i'r cymhwyster hwn
- profiad asesu ac addysgu perthnasol
- profiad rheoli pobl
- y gallu i weithio'n dda o dan bwysau

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Sean Williams ar ebost sean.williams@wjec.co.uk. Dylid cyflwyno ceisiadau erbyn **dydd Llun 08 Ebrill 2024.**

**Sut i wneud cais**:
Os ydych chi'n dymuno gwneud cais am y swydd, ac **nad ydych yn gweithio** i CBAC ar hyn o bryd, ewch i https://appointees.wjec.co.uk a chlicio 'Gwneud Cais i fod yn Arholwr' i lenwi'r ffurflen gais.

**Os ydych chi'n gweithio i CBAC ar hyn o bryd**, mewngofnodwch i'ch cyfrif Porth Rheoli Penodedigion (gan ddefnyddio eich enw defnyddiwr newydd) a chliciwch ar yr eicon 'Fy Nghais' ar yr hafan. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ychwanegu rôl **Uwch Arholwr** ar gyfer **TAG (CBAC) Lefel 3 Chwaraeon Uned 11** ar y tab 'maes pwnc', a llenwch feysydd eraill y cais.

Os oes angen unrhyw gymorth pellach arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, cysylltwch â:-

| | | |
|---|---|---|
| Rob Reynolds | neu | Emily Safadi |
| rob.reynolds@wjec.co.uk | | emily.safadi@wjec.co.uk |
| 0290 265 050 | | 02920 265 305 |